

Atodiad 3 : Ymatebion yr holiadur.

Testun	Adran a Datganiad Gweithred	Crynodeb	Argymhelliad
Categorioidio	Adran 2.4 Datganiad Gweithredu 1a , 1b , 1c	<p>Mae trefn Categorioidio hawliau Tramwy wedi ei fabwysiadu ers dros 20 mlynedd ar gyfer blaenoriaethu adnoddau ac amser staff. Beirniadir y drefn gan ei fod yn arwain i ddirywiad yng nghyflwr llwybrau mewn categorïau is ac ar ôl 20 mlynedd mae'n amlwg nad yw'r categorïau gwreiddio bellach yn cyfleu eu defnydd a'i gwerth i gymunedau.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos fod 68% o'r ymatebwyr yn cytuno dylid cadw'r drefn categorioidio.</p>	<p>Cadw Datganiad(au) Gweithredu 1a, 1b ac 1c fel y maent.</p> <p>Bydd angen gwaith pellach i asesu cyflwr y rhwydwaith (1.b) ac i adnabod dulliau o ddiweddarau ac ail-gategorioidio ac i'r perwyl yma edrychir ar yr awgrymau sydd wedi eu cynnig gan ymatebwyr.</p>
Grantiau	Adran 2.6 Datganiad Gweithredu 2b	<p>Mae'r Gwasanaeth yn fwyfwy dibynnol a'r grantiau o wahanol ffynonellau i wneud gwelliannau i isadeiledd hawliau tramwy.</p> <p>Gofynnwyd am farn ynglŷn â'r blaenoriaethu canlynol :</p> <ul style="list-style-type: none"> • Uwchraddio pontydd a strwythurau; • Gwneud llwybrau yn fwy hygyrch; • Llwybrau aml ddefnydd; • Prosiectau sy'n hwyluso mynediad at natur. <p>Roedd yr ymateb yn dangos bod 72% yn cytuno a'r blaenoriaethau.</p>	<p>Cadw Datganiad Gweithredu 2b fel y mae.</p>

Datrys Anghydfod a Gorfodaeth	Adran 2.8 Datganiad Gweithredu 4b	Ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy drafod a negodi gyda pherchnogion tir a budd ddeiliaid. Os nad oes dewis ond i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol, blaenoriaethir ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2. Roedd yr ymateb yn dangos fod 67% yn cytuno dylid blaenoriaethu ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 4b fel y mae.
Gwneud defnydd o Dechnoleg	Adran 2.11 Datganiad Gweithredu 6	Mae'n angenrheidiol bod y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gwneud defnydd o dechnoleg sy'n caniatáu i swyddogion i weithio'n effeithiol ac i ymateb yn effeithlon i gwynion gan y cyhoedd. Bydd systemau presennol gan gynnwys y wefan yn cael eu hadolygu a'u ddiweddarau. Roedd 80.6% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i annog y cyhoedd i wneud rhagor o ddefnydd o wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer cysylltu ar faterion mynediad.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 6 fel y mae
Cryfhau Cysylltiadau gyda Mudiadau ac unigolion	Adran 2.13 Datganiad Gweithredu 9	Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adnabod cyfleoedd i ymestyn a chryfhau cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i wirfoddoli ac yn ceisio cyllid er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir ganddynt. Roedd 17.7% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn aelod o fudiad sy'n awyddus i gyd-weithio gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor. Roedd 78% wedi dweud nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 9 fel y mae.

<p>Llwybrau aml-ddefnydd</p>	<p>Adran 4.6</p> <p>Datganiad Gweithredu 14a</p>	<p>Bydd y Cyngor yn ffafrio gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth aml-ddefnydd.*</p> <p>*Llwybrau aml-ddefnydd: Llwybrau i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr sydd hefyd yn diwallu gofynion unigolion gyda phroblemau symudedd.</p> <p>Nododd y 69.4% eu bod yn cytuno y dylid blaenoriaethu darparu llwybrau aml-ddefnydd ychwanegol. Roedd 19.4% yn anghytuno'n gryf, tra roedd 7.8% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.</p>	<p>Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 14a fel y mae</p>
<p>Defnydd o'r rhwydwaith Lonydd Glas gan farchogwyr</p>	<p>Adran 4.6</p> <p>Datganiad Gweithredu 14b</p>	<p>Mae'r rhwydwaith Lonydd Glas yn adnodd poblogaidd dros ben, caniateir defnydd gan gerddwyr a beicwyr ar y rhwydwaith cyfan a gall marchogwyr defnyddio rhai rhannau.</p> <p>Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith cynigwyd dylid caniatáu marchogwyr i ddefnyddio'r rhwydwaith cyfan oni bai fod rhesymau diogelwch cadarn yn bodoli.</p> <p>Roedd 54.4% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid caniatáu marchogaeth ar y rhwydwaith Lonydd Glas cyfan. Roedd 18.7% yn anghytuno tra roedd 23.1% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.</p>	<p>Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 14b fel y mae ond bydd angen rhagor o waith i asesu risgiau.</p>